



COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL


CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei gynnal mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a'r safonau a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cofnod cywir o'r holl arian yma a bod yr arian yn cael ei ddefnyddio mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.
- 1.2 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei waith a hwyluso ymarfer y Cyngor o'i swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau trefniadau ar gyfer rheoli risg.
- 1.3 Wrth lunio'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion yn *fframwaith Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016)* a gafodd ei ddatblygu gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE).

2. Y Fframwaith Llywodraethu

- 2.1 Mae'r diagram isod, a gafodd ei godi o'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifyddion, 2014) (y 'Fframwaith Rhyngwladol'), yn dangos yr egwyddorion amrywiol o lywodraethu da yn y sector cyhoeddus a sut maen nhw'n berthnasol i'w gilydd.



- 2.2 Mae'r Fframwaith yn cynnwys dwy Egwyddor Graidd (A a B) a phum Egwyddor Atebol (C i G).
- 2.3 Mae'r egwyddorion craidd yn treiddio trwy'r broses o weithredu'r egwyddorion atebol gyda'r angen i'r Cyngor cyfan ymrwymo i wella llywodraethu yn barhaus trwy broses o werthuso ac adolygu.
- 2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu sydd ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys y systemau, prosesau a'r gwerthoedd diwylliannol sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Cyngor yn ogystal â'r gweithgareddau y mae'n atebol amdany'n nhw, ac y mae'r Cyngor yn eu cynnal ac yn arwain y gymuned. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fonitro'i gyflawniad mewn perthynas â'i amcanion strategol a thrafod a yw'r amcanion yma wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas sy'n effeithiol o ran cost.

3. Diffinio Llywodraethu

- 3.1 Mae'r Fframwaith Rhyngwladol yn diffinio llywodraethu fel a ganlyn:

Governance comprises the arrangements put in place to ensure that the intended outcomes for stakeholders are defined and achieved.

- 3.2 Mae'r Fframwaith Rhyngwladol hefyd yn nodi:

To deliver good governance in the public sector, both governing bodies¹ and individuals working for public sector entities must try to achieve their entity's objectives while acting in the public interest at all times.

Acting in the public interest implies primary consideration of the benefits for society, which should result in positive outcomes for service users and other stakeholders.

- 3.3 Mae ymrwymiad y Cyngor i lywodraethu da yn canolbwyntio ar y gofyniad i fodloni rhwymedigaethau statudol a chyflawni Blaenoriaethau ei Gynllun Corfforaethol. Mae'n seiliedig ar saith egwyddor fframwaith Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016).

Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mae llywodraethu yn golygu sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir ar gyfer y bobl gywir mewn modd amserol, cynhwysol, agored, onest ac atebol.

¹ Yn y llywodraeth leol, y corff llywodraethu yw'r Cyngor Llawn.

4. **Y Fframwaith Llywodraethu sydd yn ei le o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

- 4.1 Mae gan y Cyngor ystod o bolisiâu, gweithdrefnau, systemau a phrosesau ar waith sy'n ffurfio ei drefniadau llywodraethu cyffredinol. Mae'r trefniadau yma yn unol â'r *fframwaith Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016)*. Mae nifer o'r trefniadau yma wedi'u nodi yn ei [Gyfansoddiad](#). Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi trosolwg o Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor:

Egwyddor Graidd A – Ymddwyn yn onest, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a pharchu'r gyfraith.

Mae llywodraethu da yn deillio o ethos a diwylliant ar y cyd, yn ogystal ag o systemau a strwythurau. Ac yntau'n gorff cyhoeddus, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn disgwyl i bob cynrychiolydd (h.y. Aelodau a Swyddogion) gyflawni eu dyletswyddau gyda'r lefelau uchaf o onestrwydd ac uniondeb.

Mae gan y Cyngor gyfres o godau, protocolau a pholisiâu ar waith, ac mae cymorth a hyfforddiant yn cael eu darparu yn y meysydd yma i helpu i sicrhau bod Aelodau Etholedig a Swyddogion yn deall yr hyn sydd ei angen.

Dyma esiamplau o systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Cyngor.

- Cod Ymddygiad Aelodau Etholedig a Swyddogion - pennu safonau ymddygiad y mae disgwyl i Aelodau/Swyddogion eu dilyn, mae'r safonau yma wedi'u seilio ar egwyddorion uniondeb, gonestrwydd, amhleidioldeb a gwrthrycholdeb.
- Rheolau Gweithdrefnau - gan gynnwys y Cyngor, Llywodraeth Agored, Mynediad at Wybodaeth, Y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, yr Adran Weithredol, Trosolwg a Chraffu, Cyflogi Swyddogion a Rheolau Gweithdrefnau Contract a Chyllid. Mae'r rheolau yn pennu trefniadau y mae disgwyl i Aelodau Etholedig a Swyddogion eu dilyn wrth gyflawni busnes y Cyngor, gyda'r bwriad o arddangos atebolrwydd a gonestrwydd mewn modd cyhoeddus.
- Y Pwyllgor Safonau - rôl y pwyllgor yma, ymhlith pethau eraill, yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau Etholedig.
- Polisi Chwythu'r Chwiban - mae'r polisi yma'n hyrwyddo'r safonau uchaf posibl o wasanaeth a phennu sut mae modd i weithwyr roi gwybod i'r Cyngor am gamweddau.
- Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrobwro a Llygru.

	• Polisi Rhoddion a Lletygarwch. • <u>Sylwadau, Canmol a Chwyno</u> – mae'r polisi yma'n pennu sut mae'r Cyngor yn ymdrin ag adborth (gan gynnwys cwynion, canmoliaeth a sylwadau) ac yn ymateb iddyn nhw. • Canllaw i Swyddogion.
Egwyddor Graidd B. Sicrhau bod yn agored a chynnal gwaith ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid i sicrhau bod diben, amcanion a deilliannau arfaethedig pob perthynas â rhanddeiliad yn glir fel bod y deilliannau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus ac yn gynaliadwy.	
Dyma esiamplau o systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Cyngor.	• Dyma <u>Gynllun Cyhoeddi</u> sydd â'r bwriad o roi cyngor i ddinasyddion ar sut i ofyn am wybodaeth gyhoeddus sydd gan yr Awdurdod. • <u>Hysbysiadau Preifatrwydd Corfforaethol a Phenodol i Wasanaethau</u> clir ac agored. • Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau, yn ogystal â rhestr o bynciau i'w trafod, ble y bo'n addas.

Egwyddorion Ategol	Dyma esiamplau o systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Cyngor.
Diffinio deilliannau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen er mwyn gwneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir	• Fframwaith Rheoli Cyflawniad (Perfformiad). • Y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Darparu Gwasanaeth. • Adroddiad Cyflawniad Chwarterol (gan gynnwys diweddaru'r Gofrestr Risgiau). • Strategaeth Rheoli Risg. • Strategaeth Cyllideb Refeniw Blynyddol a Rhaglen Gyfalaf tair blynedd. • Cynllun Ariannol Tymor Canolig. • Pwyllgorau Craffu.
Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu'r garfan arwain, a'r unigolion sy'n rhan o'r garfan honno	• Proses Hunanasesu Corfforaethol a'r Broses Hunanasesu ar gyfer Gwasanaethau. • Cynllun Corfforaethol. • Rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig a Swyddogion. • Cynllun Gweithlu 2017–22. • Cynlluniau Dirprwyo.
Rheoli risg a chyflawniad yn rhan o reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol cyhoeddus cadarn	• Proses Hunanasesu Corfforaethol a'r Broses Hunanasesu ar gyfer Gwasanaethau. • Strategaeth Rheoli Risg. • Cynllun Darparu Gwasanaeth. • Adroddiad Cyflawniad Chwarterol (gan gynnwys diweddaru'r Gofrestr Risgiau). • Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol (h.y. adroddiad blynyddol diwedd y flwyddyn). • Pwyllgor Archwilio a'r swyddogaeth Archwilio Fewnol. • Cynllun Rheoli Gwybodaeth (gan gynnwys y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol). • Rheolau Gweithdrefn y Fframwaith Cyllideb a Pholisi a Rheolau Contract a Gweithdrefnau Ariannol. • Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Egwyddorion Ategol	Dyma esiamplau o systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Cyngor.
Gweithredu arferion da o ran tryloywder, rhoi gwybod ac archwilio er mwyn cyflawni atebolrwydd effeithiol	☐ Rhoi gwybod am brotocolau a chalendrau (gan gynnwys rhaglenni gwaith sy'n edrych i'r dyfodol, er enghraifft, ar gyfer y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu). ☐ Datganiad o Gyfrifon. ☐ Datganiad Llywodraethu Blynyddol. ☐ Llunio Adroddiadau Blynyddol ynghylch meysydd busnes allweddol e.e. Rhianta Corfforaethol, yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. ☐ Asesiad allanol a Siarter yr Archwiliad Mewnol. ☐ Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

5. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

- 5.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal asesiad o'i fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheoli fewnol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol yn arwain yr adolygiad o effeithiolrwydd yn Rhondda Cynon Taf.
- 5.2 Mae'r gweithgaredd yma yn cynnwys adolygu'r gweithgareddau sydd ar waith mewn perthynas â phrif drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan drafod a herio trefniadau llywodraethu gydag Uwch Swyddogion ar draws y gwasanaethau ac ystyried canfyddiadau asesiad corfforaethol y Cyngor ac unrhyw archwiliadau allanol sy'n cael eu cynnal. Mae deilliant yr adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei nodi yn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol, sy'n cael ei lunio bob blwyddyn.
- 5.3 Caiff y Datganiad Llywodraethu Blyneddol drafft ei adolygu a'i herio gan Uwch Arweinwyr y Cyngor ac yna ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor i'w adolygu, ei herio a'i gymeradwyo. Mae copi o Ddatganiad Llywodraethu Blyneddol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor.
